**CYNGOR BWRDEISTREF SIROL CAERFFILI**

**HYSBYSIAD O'R PENDERFYNIADAU O GYFARFOD Y PWYLLGOR CRAFFU ADDYSG A GYNHALIWYD DDYDD MAWRTH 14 CHWEFROR AM 5.30 P.M.**

**YN BRESENNOL:**

Cynghorwyr: E. M. Aldworth, C. Bishop, A. Broughton-Pettit, M. Chacon-Dawson, A. Farina-Childs, A. Gair, C. Gordon, B. Miles, T. Parry (Cadeirydd), L. Phipps, M. Powell, J. E. Roberts, J. Winslade a K. Woodland.

Aelod Cabinet: Y Cynghorydd C. Andrews (Addysg a Chymunedau).

Swyddogion: R. Edmunds (Cyfarwyddwr Corfforaethol Addysg a Gwasanaethau Corfforaethol), S. Richards (Pennaeth Cynllunio a Strategaeth Addysg), K. Cole (Prif Swyddog Addysg), P. Warren (Arweinydd Strategol ar gyfer Gwella Ysgolion), P. O'Neil (Reolwr Gwasanaethau Ieuenctid), S. Mutch (Rheolwr y Blynyddoedd Cynnar), A. West (Rheolwr Ysgolion yr 21ain Ganrif), C. Forbes-Thompson (Rheolwr Craffu), ac S. Hughes (Swyddog Gwasanaethau Pwyllgor).

Hefyd yn bresennol:

Aelodau Cyfetholedig: Mr M. Western (Cynrychiolydd Comisiwn Archesgobaethol Eglwys Uniongred Rwsia Caerdydd dros Addysg) a Mrs T. Millington (Cynrychiolydd Rhiant-lywodraethwr).

Hefyd yn bresennol:

L. Davies (Cadeirydd, y Fforwm Ieuenctid).

Mae'r penderfyniadau a'r datganiadau o fuddiant wedi'u nodi isod. Am ragor o fanylion, cyfeiriwch at yr adroddiad perthnasol.

| EITEM | PWNC | PENDERFYNIAD | PLEIDLAIS |
|---|---|---|---|
| 1. | Cael unrhyw ymddiheuriadau am absenoldeb. | Cafwyd ymddiheuriadau am absenoldeb gan y Cynghorwyr M.P. James a J. Rao (Is-Gadeirydd), ynghyd â Mrs P. Ireland (Undeb Addysg Cenedlaethol). | Ddim yn berthnasol |
| 2. | Datganiadau o fuddiant. | Ni chafwyd unrhyw ddatganiadau o fuddiant. | Ddim yn berthnasol |
| 3. | Cymeradwyo a llofnodi'r cofnodion canlynol:<br><br>Pwyllgor Craffu Addysg a gynhaliwyd ar 26 Medi 2022. | PENDERFYNWYD cymeradwyo cofnodion cyfarfod y Pwyllgor Craffu Addysg a gynhaliwyd ar 26 Medi 2022 fel cofnod cywir. | 10 o blaid<br>0 yn erbyn<br>3 ymatal |
| 4. | Cyfarfod Arbennig y Pwyllgor Craffu Addysg a gynhaliwyd ar 19 Hydref 2022. | PENDERFYNWYD cymeradwyo cofnodion cyfarfod y Pwyllgor Craffu Addysg a gynhaliwyd ar 19 Hydref 2022 fel cofnod cywir. | 12 o blaid<br>0 yn erbyn<br>2 ymatal |
| 5. | Ystyried unrhyw fater a gyfeirir at y Pwyllgor hwn yn unol â'r weithdrefn galw i mewn. | Ni chyfeiriwyd unrhyw faterion at y Pwyllgor Craffu yn unol â'r weithdrefn galw i mewn. | Ddim yn berthnasol |

| | | | |
|---|---|---|---|
| 6. | Blaenraglen Waith y Pwyllgor Craffu Addysg. | Cafodd cais ei wneud ar gyfer adroddiad ar y rhesymau dros oedi'r rhaglen Ysgolion yr 21ain Ganrif.<br><br>Yn dilyn ystyried yr adroddiad, ac yn amodol ar yr adroddiad ychwanegol a gynigwyd, cynigiwyd ac eiliwyd cymeradwyo'r argymhellion. Cytunwyd ar hyn gan y mwyafrif a oedd yn bresennol drwy ddefnyddio Microsoft Forms a chadarnhad ar lafar.<br><br>PENDERFYNWYD cyhoeddi Blaenraglen Waith y Pwyllgor Craffu Addysg ar wefan y Cyngor. | 14 o blaid<br>0 yn erbyn<br>1 ymatal |
| 7. | Cael ac ystyried yr adroddiadau i'r Cabinet a restrir ar yr Agenda. | Ni chafodd unrhyw un o'r adroddiadau i'r Cabinet a restrir ar yr agenda eu galw ymlaen i'w drafod yn y cyfarfod. | Ddim yn berthnasol |
| 8. | Blynyddoedd Cynnar – Ehangu Dechrau'n Deg a'r Rhaglen Gyfalaf. | Yn dilyn ystyried yr adroddiad, fe'i cytunwyd ac eiliwyd bod yr argymhellion yn yn cael eu cymeradwyo. Cytunwyd ar hyn yn unfrydol drwy ddefnyddio Microsoft Forms a chadarnhad ar lafar.<br><br>PENDERFYNWYD bod y Pwyllgor Craffu wedi derbyn yr adroddiad a gwneud sylwadau ar y cynlluniau i ehangu darpariaeth y rhaglen Dechrau'n Deg a lleoliadau Dechrau'n Deg o fis Ebrill 2023. | 15 o blaid<br>0 yn erbyn<br>0 ymatal |
| 9. | Cynllun Strategol Cymraeg mewn Addysg – Cynllun Gweithredu 5 Mlynedd. | Yn dilyn ystyried yr adroddiad, fe'i cytunwyd ac eiliwyd bod yr argymhellion yn cael eu cymeradwyo. Cytunwyd ar hyn yn unfrydol drwy ddefnyddio Microsoft Forms a chadarnhad ar lafar.<br><br>PENDERFYNWYD bod y Pwyllgor Craffu wedi derbyn Cynllun Gweithredu 5 Mlynedd y Cynllun Strategol Cymraeg mewn Addysg ac wedi rhoi sylwadau ynglŷn â digonolrwydd gwybodaeth a thargedau er mwyn cyflawni'r targed lleiaf o 26% yng ngharfan blwyddyn 1 erbyn 2032. | 15 o blaid<br>0 yn erbyn<br>0 ymatal |
| 10. | Ffurfioli Model y Gwasanaeth Ieuenctid. | Yn dilyn ystyried yr adroddiad, fe'i cytunwyd ac eiliwyd bod yr argymhellion yn cael eu cymeradwyo. Cytunwyd ar hyn yn unfrydol drwy ddefnyddio Microsoft Forms a chadarnhad ar lafar. | 16 o blaid<br>0 yn erbyn<br>0 ymatal |

| | | | |
|---|---|---|---|
| | | Ystyriodd y Pwyllgor Craffu Addysg yr addasiadau diweddar i'r gwasanaeth ieuenctid a gwneud sylwadau ar y mireiniadau arfaethedig i ffurfioli'r ffordd newydd hon o weithio.<br><br>ARGYMHELLWYD i'r Cabinet: -<br><br>1. Bod y Gwasanaeth Ieuenctid yn ffurfioli'r ffordd newydd hon o weithio a symud ymlaen â'r newidiadau sydd eu hangen er mwyn gwella'r gwasanaeth ymhellach. | |

**Dosbarthiad:**

Cyhoeddwyd yn electronig erbyn 5.00pm ddydd Mawrth 21 Chwefror 2023.